10.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cipolwg ar fywyd dynion y faniau

"Ni ydy'r *fourth emergency service* 'sti!  Mae pawb angen ni rhywbryd yn eu bywydau - a *no job is too small for me ynde*!" meddai Shaun Hughes sydd o Dalysarn, Dyffryn Nantlle'n wreiddiol.

Mewn cyfres arbennig, **Yn y Fan a'r Lle**, sy'n dechrau ar S4C ar 28 Chwefror, cawn ddilyn dreifars y faniau gwyn, Shaun, Rhys a Lee wrth iddyn nhw fynd â ni ar siwrne i fywydau pobl ar draws Cymru.

Maen nhw yno i glirio'r gweddillion pan rydyn ni'n newid byd, yn ail-wampio'r tŷ, yn gadael perthynas, neu'n clirio eiddo ar ddiwedd oes. Maen nhw'n bencampwyr ar synhwyro bargen. Nhw sy'n rhoi cartref newydd i'n heiddo, boed yn rywle newydd sbon, yn sêl bwt car, yn ocsiwn neu'n sgip, gan atal tunelli o gelfi defnyddiol rhag glanio ar  domenni sbwriel. Mae 'na bethau sy'n annisgwyl bob dydd; does r'un ohonyn nhw'n gwybod yn union be sy'n aros amdanyn nhw y tu fewn.

"Ti'n gweld *personality* pobl o'u stwff nhw" meddai Lee Cunnington o Lan Ffestiniog, sydd wedi bod wrthi'n gwneud y swydd yn hunangyflogedig ers yr haf. Cyn hynny, am dros 40 mlynedd, bu'n gweithio ar hyd ei oes mewn chwarel ar ôl gadael ysgol yn 16 oed.

"*Accident* oedd mynd i'r busnes yma a deud y gwir. O'n i wedi prynu fan fach ac ro'n i'n gwneud cwrs *painting and decorating* yn Coleg Llandrillo gyda'r nos. Ro'n i'n sgrolio drwy Facebook un diwrnod ac roedd rhywun yn gofyn am berson efo fan i symud piano. Do'n i'm yn siŵr os fase piano'n ffitio yn y fan o'dd gen i; mi wnaeth, a ges i £40 *cash* am awren o waith felly na'th pethau ddechrau dod i'w lle wedyn. Do'n i'm yn cael llawer o hwyl ar y painting and decorating felly ma' hwn yn well job i fi de!"

"Dwi'n cael mynd dros y wlad i gyd – i lefydd sw'n i'm di cael cyfle i fynd fel arall. Mae 'di agor fy llygaid. Dwi'n cael cyfarfod gymaint o wahanol gymeriadau, gweld gwahanol ffyrdd o fyw.

Gyda chwech o blant i'w cynnal, mae Lee bob amser yn chwilio am fargen:

"Dwi'm 'di ffeindio unrhyw beth gwerth ofnadwy o lot o bres, ond dwi'n gofyn caniatâd i'r bobl os fedra i werthu pethau 'mlaen yn lle eu hanfon i *landfill*. Dwi'n gwneud pres bach taclus yn ailwerthu pethau.

"Drwg efo fi ar y funud ydi sgen i'm nunlle i gadw pethau. Weithiau dwi'n gorfod mynd â petha' i *kitchen* a ma'r Musus yn mynd yn *beserk*! Mae hi'n dod adra weithiau a ma' 'na *tv cabinet* neu soffa weithiau yn gegin! Mae 'di dod yn dipyn o jôc rhynga ni erbyn hyn! Dwi 'di cael fy ngalw'n Del Boy gan ambell un! Dwi'n cael lot o bleser yn gwerthu pethau 'mlaen!"

Yn y rhaglen gyntaf, cawn ddilyn Lee wrth iddo wagio garej. A fydd trysor yn aros amdano? Bydd Shaun a'i fêt yn rhoi help llaw i Christine, fydd yn symud i fyw i fyngalo yn Llanfairpwll

wedi 32 mlynedd yn ei chartref, a chawn weld sut mae Rhys yn rhoi bywyd newydd i hen greiriau er mwyn gwerthu yn ei siop.

**Yn y Fan a'r Lle**
**Nos Lun 28 Chwefror, 8.25, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Darlun ar gyfer S4C**

10.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# An insight to the lives of the fan men

"We're the fourth emergency service like! Everyone needs us at some point in their lives - no job is too small for me!" says Shaun Hughes, originally from Talysarn, Dyffryn Nantlle.

In a special series, **Yn y Fan a'r Lle**, which begins on S4C on 28 February, we follow the white van drivers - Shaun, Rhys and Lee as they take us on a journey into people's lives across Wales.

They are the ones who are there to clear up when there's a transition in our lives - upgrading the house, the end of a relationship, or clearing a property after a loved one has passed away. They are champions of sensing a bargain. They find a new home for our property, whether it's brand new place, a car boot sale, an auction or skip, preventing tons of useful furniture from ending up in landfill. They deal with the unexpected every day; they never know exactly what's waiting for them inside.

"You see the personality of people in their stuff," says Lee Cunnington of Llan Ffestiniog, who has been doing the job on a self-employed basis since the summer. Before that, he had worked in the quarry for over 40 years since leaving school at 16.

"I got into this business by accident to be honest. I'd bought a small van as I was doing a painting and decorating course during the evening at Coleg Llandrillo. I was scrolling through Facebook one day and someone was asking for a person with a van to move a piano. I wasn't sure if a piano would fit where I was; it did, and I got £40 cash for an hour's work then things started to slot into place. I wasn't so good at painting and decorating anyway, so this is a better job for me!"

"I get to go all over the country - to places I wouldn't have the opportunity to visit otherwise. It's opened my eyes - I get to meet so many different characters and see different lifestyles."

With six children to support, Lee is always on the hunt for a bargain:

"I haven't found anything worth a huge amount of money, but I ask people permission to sell things on instead of sending them to landfill. I make a nice bit of money re-selling things.

"Only thing, at the moment I don't have any storage space. Sometimes I just have to take things into the kitchen…and the missus goes berserk! She can come home and find a tv cabinet or sofa perched there! It's become a bit of a joke now! I've been called Del Boy by a few people, but I get a lot of pleasure from selling things on!"

In the first episode, we follow Lee as he empties a garage. Will there be treasure waiting for him? Shaun and his mate will be helping Christine, who is moving to a bungalow in Llanfairpwll after 32 years in her home, and we'll see how Rhys gives a new lease of life to vintage objects to sell in his shop.

**Yn y Fan a'r Lle**
**Monday 28 February 8.25, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Darlun production for S4C**